

Taclo Digartrefedd

Arweiniad



Beth sydd y tu fewn?

- Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol
- Cefndir
- Pwy all ymgeisio
- Nodau
- Blaenoriaethau
- Gwerthuso a Dysgu
- Y broses ymgeisio
- Maint a hyd y grant
- Amserlen
- Sut i gychwyn arni

Ynghylch Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol

Rydym yn cefnogi pobl a chymunedau i ffynnu.

Credwn fod y tri dull canlynol yn hanfodol i helpu pobl a chymunedau yng Nghymru i ffynnu. Rydyn ni am i'r holl weithgaredd rydyn ni'n ei ariannu ymgorffori'r rhain.



Arweinir gan bobl – rydym yn chwilio am gyfranogiad ystyrlon y bobl rydych chi'n gweithio gyda nhw yn natblygiad, dyluniad a chyflwyniad eich gweithgaredd.



Seiliedig ar gryfderau – rydym eisiau annog mudiadau i fanteisio i'r eithaf ar sgiliau a phrofiadau pobl a chryfderau o fewn cymunedau, ac adeiladu arnynt.



Cysylltiedig – rydym eisiau gwybod bod gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eraill yn ei wneud yn lleol, bod yr hyn yr ydych yn ei wneud yn cydweddu â hyn ac yn ychwanegu ato a bod gennych berthnasoedd gwaith gyda grwpiau perthnasol eraill.

Terfyn amser derbyn ceisiadau

Y dyddiad cau diwygiedig ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb yw Ionawr 12fed 2021. I ymgeisio, bydd angen i chi fod mewn partneriaeth â mudiadau eraill. Os oes diddordeb gennych mewn ymgeisio, cysylltwch â ni mor fuan â phosibl i drafod eich syniad - hyd yn oed os nad oes gennych gynllun pendant eto. Gallwn eich helpu i ymuno â mudiadau eraill sy'n meddwl am ymgeisio.

Dyddiad cau diwygiedig y cais llawn yw Medi 14ain 2021. Cyfeiriwch at y broses ymgeisio ac amserlen y rhaglen ar dudalen(nau) 12 a 14 i weld pa mor hir y mae'r broses ymgeisio yn debygol o gymryd.

Cefndir

Digartrefedd yw un o'r materion cymdeithasol mwyaf dybryd y mae Cymru yn eu hwynebu. Mae cysgu garw ar gynnydd ac mae gweld pebyll a gwersylloedd gwneud y tro bellach yn olygfa rhy gyffredin ledled Cymru. Yn yr un modd, mae nifer y bobl sy'n byw mewn llety dros dro wedi cynyddu, ac mae graddfa digartrefedd gwledig yn rhywbeth nad ydym yn gwybod llawer amdano.

Gan weithio'n agos gyda'r mudiadau sy'n cynnig cefnogaeth, a chyda'r rhai sydd wedi profi digartrefedd yn uniongyrchol, rydym wedi datblygu'r rhaglen hon mewn ymateb i'r her.

Beth yw Digartrefedd?

Rydym wedi diffinio digartrefedd fel 'peidio cael cartref. Mae rhywun yn ddigartref os ydynt yn:

- cysgu'n arw
- aros gyda ffrindiau neu deulu
- aros mewn hostel, lloches nos neu Wely a Brecwast.
- sgwatio (oherwydd nad oes gan rhywun hawl cyfreithiol i aros)
- dan risg o drais neu gamdriniaeth yn eu cartref
- byw mewn amgylchiadau gwael sy'n effeithio ar eu hiechyd
- byw ar wahân o'u teulu gan nad oes ganddynt le i fyw gyda'u gilydd

Mae achosion digartrefedd yn amrywiol ac yn unigryw i bob unigolyn, ond gallant gynnwys:

- nid yw rhieni bellach yn barod i ddarparu llety
- bod yn destun patrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad rheoli, gorfodaeth, bygythiol, diraddiol a threisgar, gan gynnwys trais rhywiol gan bartner, aelod o'r teulu neu ofalwr yn eu cartref presennol (cam-drin domestig)
- chwalfa perthynas lle nad oes gan un o'r rhai sy'n cymryd rhan lety arall
- tlodi, anghydraddoldeb, cyflenwad tai a fforddiadwyedd, diweithdra.

Effaith Pandemig COVID-19 ar fynd i'r afael â digartrefedd

Penderfynodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol oedi y rhaglen Taclo Digartrefedd ar ôl y clo mawr ddod i leihau nifer o achosion Coronafeirws. Roeddem yn teimlo bod y clo yn cael effaith sylweddol ar allu sefydliadau sy'n gweithio i gefnogi'r rhai sy'n profi digartrefedd gan eu bod yn ateb y galw cynyddol am eu gwasanaethau tra'n wynebu heriau sefydliadol.

Mae cyhoeddiadau polisi ac ariannu diweddar wedi cael goblygiadau sylweddol i'r rhai sydd â diddordeb mewn mynd i'r afael â digartrefedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn buddsoddi hyd at £50 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon i roi cymorth i'r rhai sy'n ddigartref. Cyhoeddodd ganllawiau 'Cam 2' newydd i awdurdodau lleol ar 3 Mehefin 2020 i'w helpu i gynllunio sut y byddant yn sicrhau na fydd yn rhaid i unrhyw un ddychwelyd i gysgu ar y stryd. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu a chyflwyno cynlluniau unigol ar gyfer eu hardaloedd i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin 2020 i wneud cais am arian ychwanegol i gefnogi'r rhai sy'n ddigartref.

O ystyried y datblygiadau hyn, ers mis Mehefin rydym wedi cynnal adolygiad o'r rhaglen i sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol i'r dirwedd sydd wedi newid ac wedi hynny rydym wedi gwneud rhai mân newidiadau, gan gynnwys amserlen newydd.

Pa fath o brosiectau y byddwn yn eu hariannu?

Bydd Taclo Digartrefedd yn dyfarnu grantiau i brosiectau strategol sy'n gweithredu ar draws un neu fwy o ardaloedd awdurdodau lleol mewn lleoliadau trefol a gwledig. Croesewir ceisiadau gan brosiectau sy'n ceisio ailgynllunio gwasanaethau i wneud digartrefedd yn brin, yn fyr ac yn anghylchol. Byddant yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu darparu gan bartneriaethau amlasiantaethol lle mae sefydliadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn cydweithio'n agos, yn seiliedig ar weledigaeth y cytunwyd arni gan y naill ochr a'r gilydd ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd. Bydd lleisiau'r rhai y mae digartrefedd yn effeithio arnynt wrth wraidd y prosiectau hynny. Bydd prosiectau'n:

- cydbwyso dulliau ataliol ac ymatebol o fewn amgylchedd seicolegol
- darparu cymorth i denantiaid (yn enwedig o fewn y sector rhentu preifat),
- a mynd i'r afael â'r stigma a'r rhagfarn a brofir gan bobl sy'n ddigartref.

Bydd angen i brosiectau ymateb i'r amgylchedd sy'n newid yn gyflym a achosir gan y Pandemig COVID-19 a rhaid iddynt ystyried cynlluniau 'cam 2' Awdurdodau Lleol fel rhan o'u dull gweithredu. Bydd y prosiectau'n cael eu gwerthuso'n gadarn i sicrhau y gall yr hyn y maent yn ei ddysgu lywio polisi ac arferion nawr ac yn y dyfodol. Gall prosiectau fod mewn lleoliadau gwledig a/neu drefol.

Pwy all ymgeisio

Mae ein hymchwil yn dangos bod mudiadau angen gweithio ynghyd i gydlynu eu dull, cau bylchau a sicrhau bod cyfleoedd i atal a thaclo digartrefedd yn cael eu cymryd. Dyna pam mae dim ond gan bartneriaethau aml-sector, aml-fudiad y byddwn yn derbyn ceisiadau ganddynt. Tra nid yw'r rhestr hwn yn gynhwysfawr, byddwn yn rhagweld y mathau canlynol o fudiadau yn cymryd rhan fel partneriaid.

- Mudiadau trydydd sector lleol sefydledig gyda phrofiad o ddarparu gwasanaethau digartrefedd
- Gwasanaethau iechyd
- Awdurdodau lleol
- Y sector rhentu preifat
- Cymdeithasau tai
- Mudiadau trydydd sector gydag arbenigedd perthnasol
- Gwasanaeth prawf
- Heddlu
- Y Gwasanaeth Carchar
- Mudiadau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Mudiadau LHDT
- Mentrau cymdeithasol gydag arbenigedd perthnasol
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Mudiadau crefyddol / lleoedd addoli
- Mudiadau Academaidd neu Ymchwil

Dylai Partneriaethau a cheisiadau gynnwys un neu fwy o ardaloedd awdurdod lleol a rhaid iddynt gael eu harwain gan fudiad trydydd sector sydd mewn sefyllfa dda. **Mae angen i'r partneriaethau gynnwys yr awdurdod lleol/awdurdodau sy'n cwmpasu'r ardal dan sylw.** Er bod yn rhaid i'r partneriaethau hyn ystyried cynlluniau awdurdodau lleol a ddatblygwyd mewn ymateb i ganllawiau 'Cam 2' Llywodraeth Cymru, disgwyliwn i'r partneriaethau hyn fynd ymhellach. Byddwn yn ariannu prosiectau sy'n seiliedig ar weledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â digartrefedd a rennir gan y sector cyhoeddus a'r trydydd sector ac, yn hollbwysig, gan gynnwys lleisiau'r rhai y mae digartrefedd yn effeithio arnynt.

Byddwn ond yn derbyn un Mynegiad o ddiddordeb i bob awdurdod lleol, gan gynnwys y rheini sydd eisiau gweithio ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol. Mae hyn oherwydd ein bod eisiau i fudiadau lleol weithio ynghyd i ddatblygu datrysiadau, yn hytrach na chystadlu yn erbyn eu gilydd am arian.

Nodau

Rydym am ariannu prosiectau sy'n cwrdd â'r holl nodau canlynol.



Dod â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddigartrefedd ynghyd â mudiadau'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a'r sector rhentu preifat, i gyd-ddylunio prosiectau sy'n ailgynllunio gwasanaethau i atal a mynd i'r afael â digartrefedd, gan ei wneud yn brin, yn gryno ac yn anghylchol ac sy'n ystyried y cynlluniau awdurdod lleol 'Cam 2' a ddatblygwyd mewn ymateb i'r Pandemig COVID-19.



Darparu cefnogaeth barhaus sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ychwanegol at y ddarpariaeth bresennol, sy'n cydnabod bod digartrefedd yn aml yn un o sawl her sy'n wynebu'r rhai sy'n ei brofi, gan eu helpu i oresgyn yr heriau eraill yn eu bywydau.



Datblygu a chyflwyno gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n ddigartref yn y dyfodol.



Lleihau'r gwahaniaethu a'r rhagfarn a gyfeirir tuag at bobl sy'n profi digartrefedd trwy annog empathi a dealltwriaeth trwy ddull sy'n seiliedig ar drama o fewn gwasanaethau'r sector cyhoeddus, trydydd sector a'r gymuned ehangach



Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar ddulliau effeithiol i wneud digartrefedd yn brin, yn fyr ac yn anghylchol a all lywio'r broses o gyflawni prosiectau yn ogystal â llunwyr polisi a chomisiynwyr gwasanaeth eraill.

Blaenoriaethau

Pwy fydd yn elwa o'r arian?

Mae gan awdurdodau lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i sicrhau llety i bobl sy'n ddigartref yn anfwriadol ac y mae eu hamgylchiadau'n golygu eu bod ar y rhestr 'angen blaenoriaeth'. Bydd Taclo Ddigartrefedd yn cefnogi pawb sy'n ddigartref, neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, p'un a ydynt ar y rhestr statudol 'angen blaenoriaeth' ai peidio. Bydd hefyd yn darparu cefnogaeth i bobl cyhyd ag y mae ei angen arnynt.

Mae gan rai pobl sy'n profi digartrefedd neu sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref un neu fwy o nodweddion sy'n eu gwneud yn fwy agored i niwed. Byddwn yn disgwyl i'r prosiectau rydyn ni'n eu hariannu fod wedi ystyried sut y byddan nhw'n mynd i'r afael ag unrhyw anghenion cymorth ychwanegol sydd ganddyn nhw. Mae'r rhestr hon yn tynnu sylw at rai o'r nodweddion a allai arwain at unigolion angen cymorth ychwanegol, er y bydd eraill hefyd.

■ Cyn-filwyr a chyn-luoedd arfog	■ Y Rhai sy'n Gadael Gofal
■ Y Rhai sy'n Gadael Carchar	■ Teuluoedd
■ Pobl dduon, Asiaidd, Lleiafrifoedd ethnig a Ffoaduriaid	■ LHDT+
■ Camddefnydd o sylweddau	■ Heriau iechyd meddwl
■ Ffoaduriaid	■ Ceiswyr lloches
■ Y rhai sy'n gadael yr ysbyty	■ Dioddefwyr camdriniaeth ddomestig
■ Y rhai sy'n cael eu heffeithio gan drais	■ Sipsiwn, Roma a Theithwyr
■ Gofalwyr ifanc	■ Dioddefwyr trosedd ar sail anrhydedd
■ Cymunedau lleiafrifoedd (gan gynnwys y rhai o'r UE)	■ Y rhai sydd heb eu adnabod fel pobl angen blaenoriaeth
■ Merched beichiog	■ Y rhai ag anabledau dysgu
■ Pobl hŷn	■ Pobl ddigartref ar sail gylchol
■ Pobl anabl	■ Y rhai sy'n ffoi rhag priodasau gorfodol
■ Pobl sengl sy'n ddigartref	■ Y rhai sydd â bywydau anhrefnus

Cyd-ddylunio gyda'r rhai fydd yn elwa

Rydym eisiau i ymgeiswyr weithio gyda'r rhai a fyddai'n elwa o'u prosiect i nodi, cynllunio a darparu gweithgareddau sydd o bwys iddynt. Mae hyn yn mynd y tu hwnt i ymgynghori ac yn grymuso'r unigolion hynny trwy roi llais cyfartal iddynt yn y broses. Er na fyddwn yn disgwyl ichi fod wedi ymgysylltu'n helaeth â buddiolwyr yn y cam Mynegiant o Ddiddordeb, byddwn yn disgwyl ichi amlinellu sut rydych chi'n cynnig gweithio gyda buddiolwyr a'ch partneriaid i gyd-ddylunio'ch syniad prosiect os cewch eich gwahodd i cam dau.

Er bod cyd-ddylunio yn hanfodol, credwn hefyd y dylai fod gan ymgeiswyr ryddid i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau y maent hwy a'r rhai y maent yn eu cefnogi yn eu nodi. Yn ogystal, mae ein hymchwiliad a'n hymgynghoriad wedi tynnu sylw at rai meysydd cyffredin y byddem yn disgwyl eu gweld yn cael eu hadlewyrchu yn y cynigion yr ydym yn eu hystyried ac, o ystyried maint y prosiectau yr ydym yn disgwyl eu hariannu, rydym hefyd yn disgwyl y bydd sawl maes ffocws o fewn y prosiectau hynny.

Dyma'r blaenoriaethau penodol y byddem yn annog ymgeiswyr i'w hystyried.

Gwasanaeth Arloesedd

Gyda'r gwasanaethau presennol yn canolbwyntio ar ymateb i ddigartrefedd yn hytrach na'i atal, credwn fod angen ail-gydbwyso hyn. Mae ein hymchwiliad wedi tynnu sylw at y ffaith bod gormod o gyfleoedd i weld ac atal digartrefedd yn cael eu colli, fel ymadawyr carchar yn cael eu rhyddhau o'r carchar i'r strydoedd; cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty pan wyddys eu bod yn ddigartref; ymadawyr gofal sy'n gadael gofal awdurdod lleol heb gartref parhaol. Mae gwasanaethau yn aml yn rhy ddigyswllt i atal hyn rhag digwydd ac mae angen mwy o uno a chydweithio rhwng y rhai sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sy'n ddigartref.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2015 yn gorfodi awdurdodau lleol i gynnig cefnogaeth i bobl sydd 56 diwrnod i ffwrdd o fod yn ddigartref i'w hatal rhag digwydd. Byddem yn croesawu mentrau sy'n edrych y tu hwnt i hyn i gymryd agwedd hyd yn oed yn fwy ataliol.

Cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Yn aml, dim ond un o sawl amgylchiad unigol yw digartrefedd a all effeithio ar bobl ar lefel bersonol, gyda'r naill yn aml yn cyfrannu at y llall. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys iechyd corfforol gwael; problemau iechyd meddwl; heriau alcohol a chyffuriau; profedigaeth; profiad o'r system ofal; profiad o'r system cyfiawnder troseddol; camdriniaeth ddomestig; tlodi; anghydraddoldeb; diweithdra; a diffyg sgiliau bywyd ymarferol.

Disgwyliwn i'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu weithio gydag unigolion i roi'r gefnogaeth ehangach sydd ei hangen arnynt i feithrin eu lles ac atal digartrefedd rhag ailymddangos cyhyd ag y mae ei angen arnynt.

Cefnogi tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat

Gydag opsiynau tai cymdeithasol cyfyngedig, mae'r sector rhentu preifat wedi chwarae rhan sylweddol wrth gefnogi awdurdodau lleol i fodloni gofynion Deddf Tai (Cymru) 2015. Mae ein hymchwil yn dangos bod landlordiaid preifat weithiau'n amharod i gynnig tenantiaethau i'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref neu'n profi digartrefedd gan eu bod yn poeni am y potensial ar gyfer ôl-ddyledion rhent, neu'r heriau lluosog y gallai rhai darpar denantiaid eu hwynebu. Rydyn ni am i'r prosiectau rydyn ni'n eu hariannu gynnig y gefnogaeth sydd ei hangen ar denantiaid y sector rhent preifat, tra hefyd yn cefnogi landlordiaid i ddeall y materion yn well a chyfeirio tenantiaid at y gefnogaeth y gallai fod ei hangen arnyh nhw.

Amgylcheddau gwybodus trawma

Mae effaith hirdymor profiadau niweidiol plentyndod (a elwir weithiau'n ACEs) ar iechyd, lles a chyfleoedd bywyd bellach wedi'i ddogfennu'n dda. Mae llawer o bobl sy'n ddigartref wedi bod yn agored iddynt ac mae rhai o'r ymddygiadau a'r arferion y gellir eu priodoli i ddod i gysylltiad â phrofiadau niweidiol plentyndod wedi arwain at droi allan, neu eu gwahardd o wasanaethau a ddyluniwyd i'w helpu. Bydd cymryd dull gwybodus o drawma yn cefnogi staff rheng flaen i ddeall pam mae ymddygiadau heriol yn codi, ac i weithio'n fwy adeiladol a chreadigol wrth fynd i'r afael â hwy yn hytrach na chymryd dull cosbol sy'n cosbi defnyddwyr gwasanaeth am ymddygiad gwael canfyddedig. Mae'n helpu i adeiladu gwydnwch, cymhelliant a boddhad swydd staff. Am y rhesymau hyn, rydym eisiau'r prosiectau a ariannwyd gennym gael eu seilio o gwmpas dull gwybodus trawma.

Lleihau gwahaniaethu a rhagfarn

Yn anffodus, mae pobl sy'n ddigartref yn profi rhagfarn yn rheolaidd. Gall hyn ddigwydd yn y gymuned ehangach a'r gwasanaethau y maen nhw'n troi atynt am gymorth. Rydym am i'r prosiectau sy'n derbyn arian wreiddio darparu gwasanaethau yn y gymuned mewn ffordd sy'n mynd i'r afael â'r rhagfarn a'r stigma hwn.

Digartrefedd Gwledig

Mae digartrefedd gwledig yn llawer llai gweladwy na digartrefedd mewn rhannau trefol o Gymru, yn enwedig o ran cysgu allan. Mae rhywfaint o dystiolaeth storïol hefyd sy'n awgrymu bod pobl yn llai tebygol o gyflwyno fel pobl ddigartref mewn ardaloedd gwledig. Gan nad yw'r data a gesglir ar ddigartrefedd o reidrwydd yn gywir, mae'n golygu nad ydym yng nghefn gwlad Cymru yn gwybod pa mor eang yw digartrefedd. Byddem yn croesawu ceisiadau sy'n ystyried dulliau arloesol o fynd i'r afael â digartrefedd mewn lleoliadau gwledig.

Gwerthuso a Dysgu

Rydym am i bob prosiect yr ydym yn ei ariannu gomisiynu gwerthusiad prosiect y gallant ei ddefnyddio i:



ymgorffori gwersi a ddysgwyd trwy gydol oes y prosiect.



llywio gwaith comisiynwyr a llunwyr polisi eraill ym maes tai a digartrefedd.



ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i wneud digartrefedd yn brin, yn gryno ac yn anghylchol.

Mae ein hymchwil ein hunain wedi dangos bod angen gwell tystiolaeth i helpu i lywio'r broses o ddyrannu arian cyhoeddus i fynd i'r afael â digartrefedd er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Dyma pam rydyn ni am i'r prosiectau rydyn ni'n eu hariannu ychwanegu at y sylfaen dystiolaeth trwy werthuso eu dull gweithredu a rhannu'r hyn sy'n dysg ohono.

Dylai'r rhai sydd am wneud cais ystyried cynnwys mudiad ymchwil neu unigolyn priodol fel rhan o'u partneriaeth i sicrhau bod gwerthuso a dysgu yn rhan annatod o'u syniad prosiect o'r cychwyn cyntaf.

Dros oes y prosiectau yr ydym yn eu hariannu byddwn yn chwarae rôl ymgynnull ac yn dwyn ynghyd prosiectau, buddiolwyr a chynrychiolwyr mudiadau perthnasol eraill i rannu'r dysgu o brosiectau yn ehangach. Byddwn yn cynhyrchu canllawiau gwerthuso i gefnogi'r prosiectau a wahoddir i gyflwyno cynllun prosiect i gynorthwyo gyda'u cynlluniau gwerthuso.

Y broses ymgeisio

Mae dau gam i'r broses ymgeisio Taclo Digartrefedd.

Cam un - ffurfio partneriaeth a chyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwneud cais i Taclo Digartrefedd, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl, hyd yn oed os nad oes gennych syniad clir o'r hyn yr ydych am ei wneud ar unwaith. Byddwn yn rhannu manylion mudiadau sydd â diddordeb mewn gwneud cais i'ch helpu i sicrhau nad ydych chi'n dyblygu ac i'ch helpu chi i ffurfio partneriaethau i ddatblygu cynllun i fynd i'r afael â digartrefedd.

Yna byddwn yn gofyn i bartneriaethau gyflwyno Mynegiant o Ddiddordeb, sy'n ffurflen sy'n amlinellu manylion eich partneriaeth arfaethedig, a'r heriau digartrefedd lleol yr ydych am fynd i'r afael â hwy. Er na fyddwn yn disgwyl ichi fod wedi ymgysylltu'n helaeth â buddiolwyr yn y cam Mynegiant o Ddiddordeb, byddwn yn disgwyl ichi amlinellu sut yr ydych yn bwriadu gweithio gyda buddiolwyr a'ch partneriaid i gyd-ddylunio'ch syniad prosiect.

Byddwch hefyd yn gallu defnyddio'r ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb i wneud cais am grant datblygu o hyd at £50,000 i'ch helpu chi i ddatblygu cais llawn, os cewch eich gwahodd i gyflwyno un. Os ydych yn meddwl bydd angen grant datblygu arnoch, siaradwch â ni amdano yn gyntaf.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei roi i ni yn eich ffurflen Mynegiad o Ddiddordeb i wneud penderfyniad p'un ai byddwn yn eich gwahodd i gam dau. Pan fyddwn yn asesu eich Mynegiad o Ddiddordeb, byddwn yn defnyddio unrhyw wybodaeth lleol sydd gennym am eich ardal. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall sut gall eich partneriaeth fynd i'r afael â digartrefedd a llenwi bylchau yn eich cymuned.

Rydym yn anelu i roi gwybod ichi ein penderfyniad erbyn dechrau Gorffennaf 2020. Os nad yw eich Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, byddwn yn dweud wrthych pam.

Cam dau - cyflwyno cynllun prosiect

Gwahoddir y rhai sy'n llwyddiannus yng ngham Mynegiad o Ddiddordeb i gam dau. Byddwn yn gofyn ichi ddatblygu cynllun prosiect cynhwysfawr ar gyfer eich prosiect arfaethedig a byddwn yn rhoi chwe mis i chi wneud hyn. Os dyfarnwyd grant datblygu ichi, bydd angen i chi wario'r cyfan o fewn y chwe mis. Byddwn yn cynnig adborth o'n penderfyniad cam un Mynegiad o Ddiddordeb i'ch helpu chi i fynd i'r afael â neu egluro rhai meysydd yn eich Mynegiad o Ddiddordeb, yn ogystal â chynnig awgrymiadau ar gwblhau eich cynllun prosiect.

Mae'r broses ymgeisio yn parhau i fod yn gystadleuol yng ngham dau ac mae'n annhebygol y byddwn yn ariannu pob cynnig prosiect a gyflwynir. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch inni yn eich cynllun prosiect i benderfynu a ydym yn dyfarnu grant llawn i chi. Efallai y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses asesu cam dau i egluro materion a gofyn am wybodaeth bellach.

Ein nod yw eich hysbysu o'n penderfyniad terfynol ym mis Tachwedd 2021. Os na fyddwch yn llwyddiannus, byddwn yn dweud wrthyhch pam.

Maint a hyd y grant

Mae gan Taclo Digartrefedd gyllid o **£10 miliwn**.

Grantiau datblygu (Cam un)

Mae grant datblygu o hyd at £50,000 ar gael i bob Mynegiad o Ddiddordeb a gyflwynir. Dylai hwn gael ei wario o fewn chwe mis iddo gael ei ddyfarnu, a chyn cyflwyno cais cam 2 llawn. Mae grantiau datblygu i gostau refeniw yn unig.

Credwn y gallai fod angen grantiau datblygu gan fod adeiladu cysylltiadau rhwng gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth wrth ddylunio prosiectau a datblygu cynllun prosiect yn debygol o fod yn ddwys o ran adnoddau.

Grantiau prosiect llawn (Cam dau)

Bydd grantiau prosiect yn para rhwng pump a saith mlynedd gan ein bod yn credu y gallai arian tymor hwy hyrwyddo ailgynllunio gwasanaethau a bod yn fwy addas ar gyfer yr anghenion cymorth tymor hwy y mae llawer o fuddiolwyr posibl y prosiect yn debygol o'u cael. Disgwyliwn i'r rhain fod yn grantiau refeniw yn bennaf, gyda rhai costau cyfalaf yn cael eu caniatáu gyda'n cytundeb blaenorol.

Nid oes uchafswm maint grant gan nad ydym am gyfyngu ar raddfa ac uchelgais ymgeiswyr.

O ystyried graddfa a chwmpas tebygol y prosiectau aml-bartner yr ydym yn gobeithio eu hariannu, rydym yn rhagweld efallai mai dim ond cyfanswm o dri neu bedwar prosiect y gallwn eu hariannu. Mae'n annhebygol y byddwn yn gallu ariannu'r holl brosiectau sy'n berthnasol i ni am arian trwy'r rhaglen hon.

Amserlen diwygiedig

Cam un

8 Hydref 2020

Byddwn yn ailagor y rhaglen ac yn sicrhau bod y ffurflen Mynegiant o Diddordeb ar gael eto i grwpiau y credwn y gallem eu hariannu

8 Hydref 2020 – Rhagfyr 2020

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cysylltwch â ni cyn gynted ag y byddwch yn bwriadu ymgeisio. Gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau eraill ger eich bron i'ch helpu i gymryd rhan mewn trafodaethau yn eich ardal. Gweithiwch gyda'ch darpar bartneriaid i lenwi'r ffurflen Mynegi Diddordeb a gofynnwch am grant datblygu os credwch y bydd angen un arnoch.

12 Ionawr 2021

Cyflwynwch eich Mynegiad o Ddiddordeb i ni a byddwn yn cydnabod ein bod wedi'i dderbyn o fewn pum diwrnod gwaith.

Mawrth 2021

Byddwn yn dweud wrthyach a yw eich Mynegiad o Ddiddordeb wedi bod yn llwyddiannus ac yn dyfarnu grantiau datblygu lle gofynnir am hynny.

Byddwn yn darparu adborth i brosiectau aflwyddiannus.

Cam dau

Mawrth 2021 – Awst 2021

Gweithiwch gyda'ch partneriaid a'ch defnyddwyr gwasanaeth i gyd-ddylunio'ch cynllun prosiect.

14 Medi 2021

Cyflwynwch eich cynllun prosiect llawn i ni erbyn 12:00yh. Byddwn yn cydnabod ei fod wedi'i dderbyn o fewn pum diwrnod gwaith.

Tachwedd 2021

Byddwn yn dweud wrthyach os yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus.

Sut i gychwyn arni

Sicrhewch eich bod wedi darllen y nodiadau arweiniad yn ofalus a rhowch alwad i ni. Gallwn roi cyngor a chefnogaeth ychwanegol ichi cyn i chi gyflwyno'ch Mynegiad o Ddiddordeb, dweud mwy wrthyhych am y wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi a'ch rhoi mewn cysylltiad â mudiadau eraill yn eich ardal sydd â diddordeb mewn bod yn rhan o bartneriaeth.

Yn unol â gofynion GDPR, bydd angen eich caniatâd arnom i rannu'ch manylion â mudiadau eraill. I ddarganfod pa ddata personol rydym yn ei gasglu a sut rydym yn defnyddio'r data hwn, ewch i tnlcommunityfund.org.uk/data-protection.

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, dyma'r mathau o gwestiynau y byddwn yn eu gofyn. Bydd yn ddefnyddiol i chi gael cymaint o wybodaeth wrth law â phosib. Os ydych yn gofyn i ni am gyngor ar eich syniad neu ddiddordeb trwy e-bost, rhowch gymaint o wybodaeth â phosib yn eich e-bost er mwyn i ni roi adborth priodol yn ein hateb.

- Pa fath o fudiad ydych chi? Trydydd sector, menter gymdeithasol, corff statudol a.y.y.b.
- Beth mae'ch mudiad yn ei wneud, a pha rôl sydd ganddo i gefnogi pobl sy'n ddigartref?
- Beth allai eich mudiad ddod â i brosiect digartrefedd a ddarperir trwy bartneriaeth?
- Pa syniadau sydd gennych ar gyfer darparu'r prosiect?

Hygyrchedd

Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu sydd gennych. Mae gwybodaeth gyswllt ar gael ar ddiwedd yr arweiniad hwn.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb

Mae ein hegwyddorion cydraddoldeb yn cynnwys: hyrwyddo hygyrchedd, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol, hyrwyddo cyfranogiad, hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cymunedau cynhwysol, lleihau anfantais ac eithrio. Ewch i'n gwefan am fwy o wybodaeth

tnlcommunityfund.org.uk/equalities

Mae'r arweiniad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd

Mae'r amgylchedd yn bwysig i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ac rydym wastad yn ceisio rheoli ein effaith amgylcheddol. Rydym yn annog ac yn cefnogi prosiectau a chymunedau i wneud yr un peth a byddwn yn disgwyl ichi ystyried hyn wrth ddatblygu eich prosiect. Dysgwch fwy am sut y gallwch wneud eich prosiect neu ddigwyddiad yn fwy amgylcheddol cynaliadwy ac efallai arbed arian ar yr un pryd trwy ymweld â tnlcommunityfund.org.uk/funding/funding-guidance/reducing-your-environmental-footprint

Cysylltwch â ni

digartrefedd@cronfagymunedolylg.org.uk

cronfagymunedolylg.org.uk

T 0300 123 0735



18001 plws 0300 123 0735